

## CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN

### Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 29ain o Ebrill 2024 am 7.30yh yn y Neuadd, Llanegryn.

Presennol; Cyng. Alwyn Roberts, Lona Harris, William T Davies, WRP Jones, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies, Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) Shan Jones a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Alwyn Roberts. Roedd croeso arbennig i Huw Jones fel Clerc newydd. Diolchodd Huw i Shan y cyn Clerc am ei cydweithrediad yn trosglwyddo y gwaith a'r papurau iddo.
2. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 26ain o Chwefror** ar gynnig Cyng.Lona Harris a'l eilio gan Cyng William T Davies.
3. **Materion yn codi a materion eraill.**
  - a) **Gardd Goffa** – adroddwyd fod y gwaith wedi cychwyn, a nodwyd fod angen gwybod sut oedd y cyfan yn datblygu. Byddai rhaid trafod cyfarfod nesaf.
  - b) **Glanhau toiledau yn Llanegryn** – roedd siom am safon y gwaith gan Scrub a Dub. Gofynnwyd l'r Clerc gysylltu gyda Louis Hiatt, ac adrodd erbyn y cyfarfod nesaf.
  - c) **Polisiau i'w mabwysiadu** – roedd y canlynol wedi eu danfon l bawb drwy e-bost gan y Clerc dyddiedig 26.04.24;

**Rheolau Sefydlog**

**Rheolau Ariannol**

**Polisi pryderon a chwynion**

**Polisi cyfle cyfartal**

**Polisi amgylcheddol**

**Adroddiad Bioamrywiaeth (mae Shan wedi ysgrifennu hwn)**

**Diogelu data**

**Polisi rhyddid gwybodaeth**

Ar gynnig Cyng William T Davies a'l eilio gan WRP Jones, penderfynwyd l'w mabwysiadu.

- d) **Contract gwaith i'r Clerc** – dangoswyd contract wedi ei baratoi mewn drafft. Byddai'r Clerc yn ei ddsbarthu er mwyn ei gadarnhau yn y cyfarfod nesaf. Roedd yn cadarnhau cyflog o £2000 y flwyddyn a £500 o gostau fel y cytunwyd. Awgrymwyd cael e-bost penodol l'r Cyngor, a byddai'r Clerc yn adrodd ymhellach ar hyn.
- e) **Gwefan i'r Cyngor** – dangoswyd rhai tudalennau wedi eu paratoi mewn drafft gan HG Web Designs. Bala. Cytunwyd rhai newidiadau, a byddai'r Clerc y neu danfon allan cyn i'r cyfan fynd yn fyw ar y wefan. Darllenwyd cyflwyniad drafft l'r wefan wedi ei baratoi gan y Clerc. Cytunwyd ar gostau o oddeutu £250/300 l'w sefydlu, ac yna costau cynnal a chadw yn flynyddol o tua £250.

- f) **Cofrestr Buddiannau a ffurflenni cadarnhad nad oedd neb o'r Cynghorwyr yn hawlio treuliau** – arwyddwyd ddatganiad gan y Cynghorwyr i gyd.
- g) **Gwaith PAYE** – cytunwyd efo costau EW Owen a'l Chwmni i wneud hyn am oddeutu £180 y flwyddyn.
- h) **Dyddiadau gweddill cyfarfodydd 2024-25** – cytunwyd ar y dyddiadau canlynol – 20/05/24, 24/06/24, 29/07/24, 30/09/24, 25/11/24, 27/01/24, 24/02/25 (cyfanswm felly o 8 cyfarfod y flwyddyn)
- i) **Gwybodaeth am gyfarfodydd** - cadarnhaodd y Clerc y byddai yn danfon agenda l bawb wythnos ymlaenllaw, hefyd yn ei roi ar y wefan. Hefyd paratoi poster l hysbysfwrdd y pentref, a chytunodd Cyng Eurgain Haf a Cyng Lona Harris l gynorthwyo efo hyn l roi'r poster l fynny. Cadarnhawyd y gallai unrhyw Gynghorydd roi eitem ar yr agenda os ydynt yn dymuno drwy gysylltu efo'r Clerc.
- j) **Cofrestr asedau y Cyngor** – nodwyd mai y toildeau yw'r unig ased, ac ar bris o £10k a chytunwyd ar hyn.
- k) **Cynllun hyfforddiant** – darllenwyd cynllun mewn draft, a chytunwyd y gellir rhoi hwn ar y wefan. Byddai'r Clerc yn danfon manylion cyrsiau ymlaen gan Un Llais Cymru.

#### 4. Materion Cyllid.

##### **Anfonebau;**

Cytunwyd, ar gynnig Cyng Lona Harris a'l eilio gan Cyng WRP Jones i dalu anfoneb **Archwiliad allanol y Cyngor am 2020-21 , sef £588.00.**

Cytunwyd, ar gynnig Cyng Eurgain Haf Davies a'i eilio gan Cyng William T Davies l dalu anfoneb **Neuadd Llanegryn am gyfanswm o £140.**

Cytunwyd, ar gynnig Cyng Catrin Rutherford a'l eilio gan Cyng Lona Harris l dalu aelodaeth **Un Llais Cymru am 2024-25 ar gost o £67.**

#### 5. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)

Cyfeiriodd Cyng Beth Lawton at gyfarfodydd gyda'r Bwrdd Iechyd l drafod beth sydd yn digwydd gyda Ysbyty Tywyn. Adroddwyd nifer o glinigau sydd ymlaen, a nifer o gynlluniau eraill amrywiol. Grant.

Cadarnhaodd ei bod wedi cysylltu gyda'r Adran Briffyrdd ynglyn a'r twll (sianel) yn y ffordd ger Dolffanog. Roedd hyn wedi codi sawl gwaith o'r blaen, ac roedd gobaith yn awr y byddai yn cael ei ddatrys.

#### 6.Gohebiaeth.

a) Roedd e-bost drwy law Shan gan Dr Jeff Smith, Cadeirydd SARPA ynglyn a toriadau difrifol I wasanaethau rheilffyrdd. Byddai'r Clerc yn ei ddsbarthu I bawb, ac yn ymateb ar ran y Cyngor yn gwrthwynebu y toriadau I gyd.

b) Roedd e-bost gan Anna Lewis, Swyddog Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd ynglyn a Cynllun 'Ardal Ni' Bro Dysynni, a chyfarfod yn Neuadd Pendre Tywyn ar Nos Iau 13eg o Fehefin 5.30- 7.30yh. Byddai'r Clerc yn ei ddsbarthu, a gellir trafod cyfarfod nesaf.

c) Roedd e-bost gan Cyngor Tref Nefyn ynglyn a bwriad Cyngor Gwynedd I wario £1 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf ar 67 o geir trydan. Roeddynt yn gofyn am gefnogaeth drwy ddanfôn llythyr at Dyfrig Siencyn yn gwrthwynebu'r bwriad. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Dyfrig Siencyn I gael cadarnhad os oedd y ffeithiau yma yn gywir.

## 7. Unrhyw fater arall.

a) Adroddwyd fod **llwybr wedi ei rwystro** ger Peniarth Uchaf, ac roedd angen ymchwilio I hyn.

b) Roedd gwaith ei angen **ar y comin a'r maes chwarae yn Llanegryn**. Adroddwyd fod llythyr gan A W Williams, Peiriannydd Ardal Meirionnydd yn cadarnhau fod gwaith ar y gweill I glirio cylfart a tyfiant o gwmpas yr ardal lle mae dwr yn casglu.

c) Roedd caead y bin ger y fynedfa I'r comin wedi torri, a byddai'r Clerc yn edrych I mewn I hyn.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y CYFARFOD BLYNYDDOL ; Y NEUADD  
LLANEGRYN NOS LUN 20fed o Fai 2024 , 7.30y.h.**